**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**16 TACHWEDD 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Iau, 16 Tachwedd 2017.

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Haydn Bateman, Bob Connah, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Mike Lowe, Michelle Perfect, Vicky Perfect ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIAD:** Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyllid

**CYFRANWYR:** Prif Weithredwr

Cynrychiolwyr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer cofnod rhif 42
Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân
Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies a Peter Lewis, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod

Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol – ar gyfer cofnodion rhif 38-43
Prif Swyddog, Llywodraethu – ar gyfer cofnod rhif 43
Rheolwr Cyllid Corfforaethol – ar gyfer cofnod rhif 44

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**38. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**39. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2017.

Fel pwynt cywirdeb ar gofnod rhif 30, Rhagolwg Ariannol a Cham Un Cyllideb 2018/19, nodwyd y bu gostyngiad o 0.9% o ran cyllid ar gyfer y Cyngor yn y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro.

Cytunodd y Prif Weithredwr i siarad â’r Cynghorydd Jones y tu allan i’r cyfarfod am achos penodol o feddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn, yn dilyn trafodaeth am y pwnc hwn yng nghyfarfod mis Medi.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad, dylid cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 40. AMRYWIAD O RAN TREFN Y RHAGLEN

Cytunwyd dylid dod â'r eitem a ganlyn ymlaen i alluogi'r Dirprwy Brif Swyddog Tân i gyflwyno Diweddariad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 41. ADOLYGIAD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR Y FFLINT A DATBLYGIAD CYNLLUN LLES

Cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg o waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a datblygiad y Cynllun Lles.

Dosbarthodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol wybodaeth am bum thema'r Cynllun Lles a ddewiswyd fel rhai lle gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ychwanegu'r mwyaf o werth. Roedd ymgynghoriad helaeth ar y Cynllun amlinellol i fod i ddechrau cyn hir gan arwain at fabwysiadu'r fersiwn derfynol gan y Cyngor yn y Flwyddyn Newydd.

Mynegodd Cynghorydd Jones bryderon fod dolen gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cyfeirio at feysydd penodol o'r sir a allai awgrymu na fyddai ardaloedd eraill yn manteisio ar y Cynllun. Cafwyd sicrwydd gan y Prif Weithredwr fod y themâu yn cefnogi'r Sir gyfan a nododd Un Pwynt Mynediad dan 'Lles a Byw'n Annibynnol' fel enghraifft. Cytunodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol i godi'r mater yng nghyfarfod Compact Sector Gwirfoddol a oedd i ddod, i sicrhau nad oedd nodau'r Cynllun yn cael eu cam-gynrychioli ar wefan BIPBC.

Gan ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Johnson, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yn bosibl gwerthuso effaith Brexit eto a materion eraill a oedd y tu allan i reolaeth y Cyngor. Byddai camau gweithredu dan bob thema yn cael eu holrhain yn erbyn targedau penodol a osodwyd. Atgoffodd Aelodau am y gweithdy a oedd i ddod ar Fargen Twf Economaidd Gogledd Cymru a dywedodd y byddai'r dull rhanbarthol yn cryfhau sefyllfa'r Cyngor ar fynediad cyllid a phwerau yn y dyfodol. Roedd cyfeirio at Holway ar beilota ffyrdd newydd o weithio mewn cymunedau dan 'Cymunedau Gwydn' yn adlewyrchu Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn yr ardal. Cytunodd Swyddogion i newid hwn i Holywell (Treffynnon) er cysonder gyda'r trefi eraill a nodwyd.

Soniodd Cynghorydd Woolley am y cymysgedd o gyfeiriadau at 'flaenoriaethau' a 'themâu' a allai ddrysu darllenwyr. Eglurwyd bod blaenoriaethau'n berthnasol i'r hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol a bod camau wedi'u cymryd i symleiddio iaith dan bum thema'r Cynllun newydd.

Amlygodd Cynghorydd Heesom bwysigrwydd sicrhau bod adnoddau'n cael eu dosbarthu'n deg ar draws y sir a gofynnwyd bod ymateb i'r pwynt a godwyd gan y Cynghorydd Jones yn cael ei rannu. Gofynnodd hefyd bod y rhaglen ar gyfer y cyfarfod Compact yn cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor. Gan ymateb i sylwadau am gyfraniadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gorff gwneud penderfyniadau ffurfiol a dangosodd y cysylltiad rhwng y Cynllun Lles a Chynllun y Cyngor. Darparodd hefyd fanylion am aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd wedi'i estyn tu hwnt i'r partneriaid statudol.

Yn ystod trafodaeth am argymhellion yr adroddiad, gofynnwyd i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd grynhoi'r sylwadau a'r pwyntiau a godwyd. Cefnogwyd rhain gan y Pwyllgor fel penderfyniadau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod gan y Pwyllgor hyder bod camau ar waith i fod â chynllun yn barod erbyn y dyddiad cau statudol, yn amodol ar:

- Newid 'Holywell' am y cyfeiriad at 'Holway';
- Bod cyfeiriadau ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cael eu herio yng nghyfarfod Compact dydd Llun i roi sicrwydd i Aelodau fod BIPBC yn cydnabod y manteision i'r sir gyfan, gydag adroddiadau ar gael maes o law.
- Bod papurau ar gyfer cyfarfod Compact sydd i ddod ar gael i Aelodau, fel y gofynnwyd;
- Diolch i'r Prif Weithredwr am ei eglurhad a'i sicrwydd nad yw'r cysylltiad rhwng Cynllun y Cyngor a'r Cynllun Lles yn peri risg i broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

## 42. DIWEDDARIAD AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Croesawodd Prif Weithredwr y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies a Peter Lewis (Cadeirydd ac Is-Gadeirydd) a Dawn Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân) o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r cyfarfod.

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân gyflwyniad ar ddyfodol y gwasanaeth Tân ac Achub i gwmpasu'r pynciau a ganlyn:

- Diogelwch Cymunedol
- Galwadau Gwasanaeth Arbennig
- Ymateb a Diogelwch Tân Busnes
- Faint mae'n gostio i'w redeg?
- Cyllideb Cyfalaf
- Cronfeydd wrth gefn 2017/18
- Pwysau ar y Gyllideb
- Strategaeth Gadarn

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y cyflwyniad yn adlewyrchu pwysau'r gyllideb a oedd yn cysoni gyda rhai'r Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd Cunningham am y posibilrwydd o gyflwyno taliadau i ddarparu buddsoddiad mawr ei angen mewn gwasanaethau. Eglurodd Dirprwy Brif Swyddog Tân nad oedd taliadau am wasanaethau arbennig damweiniol yn cynhyrchu incwm sylweddol a bod anawsterau o ran codi tâl am ddarparu cyngor diogelwch oherwydd gwrthdaro buddiannau.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Jones, eglurwyd, oherwydd sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fod penderfyniadau wedi'u gwneud i leihau neu atal gwasanaethau penodol – fel achub anifeiliaid mawr – nad oeddent yn orfodol, gan ystyried y lefelau risg sy'n rhan o hyn.

Yn ystod y drafodaeth, eglurwyd fod pwysau'r gyllideb a wynebir gan yr Awdurdod wedi dod i sefyllfa lle roedd angen trafodaeth gytbwys i nodi effeithlonrwydd pellach. Yr opsiynau i'w hystyried oedd gofyn am ardoll uwch gan gynghorau neu leihau darpariaeth o ran gweithwyr gorsafoedd y rhanbarth.

Dywedodd y Cynghorydd Jones, pe bai preswylwyr yn ymwybodol o'r rhagolwg o doriadau pellach, mae'n bosibl y byddant yn barod i dalu £3 ychwanegol bob blwyddyn fesul aelwyd i ddiogelu gwasanaethau. Dywedodd y Prif Weithredwr fod ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei dalu o Dreth y Cyngor ac y byddai unrhyw gynnydd o ran yr ardoll yn bwysau o ran cost ar y Cyngor. Dywedodd fod cynnydd pellach a argymhellwyd i Dreth y Cyngor 2017/18 i ddarparu ar gyfer yr ardoll uwch gan yr Awdurdod wedi'i ddiystyru gan Aelodau, gan arwain at bwysau ar y gyllideb ar gyfer y Cyngor. Roedd y Cynghorydd Jones yn teimlo y gallai preswylwyr gefnogi'r ardoll ychwanegol pe bai wedi'i glustnodi o fewn swm Treth y Cyngor.

Awgrymodd y Cadeirydd, gan nad oedd deddfwriaeth yn caniatáu hyn, gallai nodyn gael ei gynnwys ar filiau Treth y Cyngor i ddangos yr ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Dywedodd y Prif Weithredwr, efallai byddai Aelodau am wneud argymhelliad i roi ystyriaeth creadigol i'r wybodaeth a gynhyrchir i roi gyda'r bil Treth y Cyngor. Awgrymodd argymhelliad pellach ar gyfer y Cabinet a'r Cyngor i roi ystyriaeth ddyledus i unrhyw gynnydd a awgrymir o ran y tâl ardoll. Gofynnodd y Cynghorydd Peter Lewis, Is-Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fod y Cyngor yn rhoi pwyslais cynnar ar ei ymateb.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion, a hefyd yr awgrym i roi sylwadau am newidiadau i ddeddfwriaeth a chynnig y Cynghorydd Woolley fod yr adroddiad yn cael ei nodi am ei eglurder a'i grynoder.

Gan mai hwn oedd ei chyfarfod olaf cyn cymryd rôl newydd ym Manceinion Fwyaf, diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân am ei chyflwyniad a chymerodd y cyfle i ddymuno'n dda iddi ar ran y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod cynrychiolwyr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael diolch am eu presenoldeb a'u cyfraniad at y cyfarfod;

(b) Nodi'r adroddiad a chymeradwyo ei eglurder a'i grynoder;

(c) Bod newidiadau i'r deunyddiau sydd wedi'u cynnwys ym miliau Treth y Cyngor, i egluro cyllid Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i dalwyr Treth y Cyngor, yn cael eu hymchwilio;

(d) Bod achos am newidiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth genedlaethol yn cael ei ddilyn i ddarparu rhagor o dryloywder o ran cyllid Awdurdod Tân ac Achub;

(e) Bod y Cabinet a’r Cyngor Sir yn cael gwybod bod y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i dâl ardoll yr Awdurdod Tân ac Achub a’r angen am gynnydd; a

(f) Bod cynrychiolwyr Sir y Fflint ar yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael gwybod ar gam cynnar am sefyllfa’r Cyngor ar gynnydd o ran cyllid Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**43. <u>CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18 – MONITRO CANOL BLWYDDYN</u>**

Cyflwynodd Prif Weithredwr yr adroddiad cynnydd canol blwyddyn ar Gynllun y Cyngor 2017-23 a oedd wedi’i adolygu a’i adfywio i adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor ar gyfer tymor pum mlynedd y weinyddiaeth newydd.

Rhoddodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol drosolwg o’r tri dangosydd perfformiad gyda statws risg coch.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y ffigur ar gyfer cwblhau arfarniadau yn un dros dro a disgwyliwyd iddo wella pan fyddai addasiadau wedi’u gwneud i system iTrent. Byddai diweddariad llawn yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad blynyddol a drefnwyd ar gyfer mis Rhagfyr neu fis Ionawr.

Dywedodd y Cynghorydd Woolley fod cwblhau arfarniadau yn faes pryder hirsefydlog a dylai rheolwyr/goruchwylwyr gael eu dal i gyfrif am fethu â rhoi cyfle i’w gweithwyr gael deialog ddwyffordd ystyrlon. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd am yr ymrwymiad i weithio tuag at y targed o 100% gan nodi bod rhai eithriadau fel unigolion mewn perygl o golli swydd neu ar absenoldeb mamolaeth. Dywedodd fod arfarniadau yn seiliedig ar fodel da a bod rheolwyr yn cael eu hannog i hyfforddi gweithwyr drwy gydol y flwyddyn, gan leihau pa mor arwyddocaol fyddai arfarniad blynyddol.

Yn dilyn sylwadau gan y Cadeirydd, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai eithriadau ar gyfer arfarniadau yn cael eu dangos yn yr adroddiad blynyddol fel canrannau a ffigurau.

O ran canran y nwyddau a gafaelwyd drwy’r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod amrywiaeth o fframweithiau’n cael eu hasesu i sefydlu gwerth am arian a byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy’r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol mewn nifer isel o gontractau yn unig.

Roedd canran y gweithwyr a oedd yn cwblhau rhaglenni sy’n ymwneud â straen yn is nag a ragwelwyd ond roedd disgwyl iddo wella drwy’r flwyddyn. Dim ond yn ddiweddar y cafodd y rhaglen ei chyflwyno ac er bod cyfraddau salwch yn gwella, roedd absenoldeb oherwydd straen yn dal i fod yn faes canolbwynt.

Dywedodd y Cynghorydd Jones, fel rhan o rôl y Pwyllgor o ran goruchwylio Cynllun y Cyngor yn ei gyfanrwydd, dylai gael eithriadau a adroddir i’r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y camau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Rhoddodd sylwadau hefyd ar eiriad ar goll yn yr adroddiad a chyfeiriad at yr hen Gynllun Gwella.

Cynigiodd Cynghorydd Johnson fod swyddogion yn edrych ar y dull a gymerwyd gan y Ganolfan Strategaeth Economaidd Leol yn Preston a oedd wedi bod yn llwyddiannus o ran cefnogi busnesau bach i helpu i wella'r economi leol.

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod nodi darpariaeth leol yn rhan allweddol o drefniadau contract a bod amrywiaeth o gefnogaeth ar gael i helpu busnesau lleol i gynyddu cyfleoedd tendro.

Dywedodd y Cynghorydd Jones fod ymdrechion i roi hwb i fusnesau lleol wedi'u rhwystro gan gyflwyno taliadau parcio, tâl cofrestru ar gyfer rhwydwaith cyflenwyr y Cyngor a chostau uchel casglu gwastraff busnes gan gwmnïau preifat.

O ran y system rhwydwaith cyflenwyr, soniodd y Prif Swyddog am fanteision symleiddio prosesau a'r amrywiaeth o eithriadau sydd ar gael i sicrhau nad oedd busnesau bach yn cael eu heffeithio.

Cafodd y pwyntiau a godwyd gan Aelodau eu crynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'u cytuno gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl ystyried adroddiad monitro canol blwyddyn 2017/18 Cynllun y Cyngor, hoffai'r Pwyllgor bwyso ar y Cabinet yr angen am ganran uwch o weithwyr i gael arfarniadau (er gwaethaf yr adroddiad diweddaru Arfarniadau y bydd y Pwyllgor yn ei gael maes o law);

(b) Gan gydnabod cylch gorchwyl eang y Pwyllgor, y dylai gael adroddiadau monitro perfformiad llawn Cynllun y Cyngor bob chwech a deuddeg mis; a

(c) Gofyn i'r tîm Caffael edrych ar y gwaith a wneir ar wario lleol yn Preston gan y Ganolfan Strategaeth Economaidd Leol.

**44. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2017/18 (MIS 6) A MONITRO RHAGLEN GYFALAF (MIS 6)**

Cyflwynodd Rheolwr Cyllid adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18 fel yr oedd ar Fis 6 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Rhaglen Gyfalaf, cyn cael ystyriaeth gan y Cabinet.

Monitro Cyllideb Refeniw

O ran Cronfa'r Cyngor, rhagwelwyd y byddai sefyllfa net yn ystod y flwyddyn yn £1.147m uwch na'r gyllideb, a oedd yn gynnydd o £0.201m o Fis 5. O ran amrywiadau a ragwelwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, roedd symudiad cadarnhaol oherwydd cynnydd o ran cyfraniadau cleientiaid ar gyfer lleoliadau preswyl a chynnydd o ran cyllid Gofal Iechyd Parhaus. Roedd cynnydd o ran costau ar gyfer lleoliadau y Tu Allan i'r Sir wedi codi yn bennaf oherwydd dau achos penodol. Amcangyfrifwyd y byddai 93% o arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd wedi'u sicrhau erbyn diwedd y flwyddyn, a oedd ychydig yn is na tharged y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. O ran monitro risg, byddai angen

asesu rhai o'r risgiau a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn ar gyfer effaith gylchol ar gyllideb 2018/19.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, rhagwelwyd mai gwariant yn ystod y flwyddyn oedd £0.035m yn is na'r gyllideb, gan adael balans diwedd blwyddyn o £1.081m a oedd yn uwch na'r lefel isaf a argymhellwyd.

Gan ymateb i'r ymholiadau a godwyd gan y Cynghorydd Jones, cynghorodd swyddogion fod cau'r toiled cyhoeddus yn yr Wyddgrug wedi'i drafod gan y cyngor tref ac ni fyddai'r gost yn parhau y tu hwnt i eleni. O ran cyllidebau dirprwyedig ysgolion, eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol nad oedd amrywiadau oherwydd bod y rhain yn symiau sefydlog a drosglwyddwyd i ysgolion drwy'r fformiwla. Nododd y cais am ragor o eglurder ar danwariant a gorwariant yn yr eglurhad am amrywiadau a ragwelwyd, a dywedodd fod dadansoddiad ar symudiad wedi'i nodi yn yr atodiadau. Ychwanegodd y dylai unrhyw ymholiadau penodol ar y ffigurau hyn gael eu cyfeirio i swyddogion edrych arnynt. Rhoddwyd eglurhad am amrywiadau ar gyfer cyfran y Cyngor o gyllid gofal cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru a'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref. Cyfeiriwyd at y tanwariant a ragwelwyd ar gyfer Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor ac roedd hyn oherwydd llai o alw gan gleientiaid. Cytunwyd y byddai hyn yn destun trafodaeth bellach gan gynnwys y gweithdy Aelodau a oedd i ddod.

O ran fformat yr adroddiad, gofynnodd y Cynghorydd Jones fod swyddogion yn edrych ar a ellid dangos bod lleoliad atodiadau'n gyson yn yr adroddiadau.

Rhaglen Gyfalaf

Roedd tabl yn dangos newidiadau i'r rhaglen yn ystod 2017/18 yn dangos cyllideb ddiwygiedig o £58.674m. Cafwyd crynodeb o newidiadau yn ystod y cyfnod, y mwyaf sylweddol oedd dechrau'r rhaglen goleuadau stryd a ariannwyd drwy fenthyciad Salix di-log. Cafwyd crynodeb o gyfanswm o £0.497m a argymhellwyd i'w gario drosodd i 2018/19 yn Nhabl 4.

Roedd Paragraff 1.20 yn adrodd sefyllfa gyffredinol o ran argaeledd cyllid gan gynnwys lefel y derbyniadau cyfalaf ac effaith y Setliad Dros Dro. Gan roi ystyriaeth i bob maes, roedd diffyg o £0.567m o ran y rhaglen gyfan, er bod cyllideb 2017/18 wedi'i hariannu'n llawn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2017/18 (Mis 6) a chadarnhau mai'r materion mae'n dymuno eu dwyn i sylw'r Cabinet y tro hwn yw:
- yr angen am eglurder o ran iaith ar danwariant a gorwariant fel bod materion o'r fath yn cael eu deall yn rhwydd;
- bod y tanwariant ar y cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor yn cael ei archwilio a bod dyraniad y gyllideb yn cael ei ailfodelu os oes angen.

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2017/18 Mis 6 a chadarnhau nad oes materion mae'n dymuno eu dwyn i sylw'r Cabinet y tro hwn.

## 45. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i gael ei hystyried a chadarnhaodd y byddai'r adroddiad arfarniadau yn cael ei amserlennu ar gyfer mis Rhagfyr neu fis Ionawr. Yn ôl cais y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, gofynnwyd am farn Aelodau am eu patrwm cyfarfod a ffefrir ar gyfer y Pwyllgor hwn.

Mynegodd Cynghorydd Cunningham ddewis i'r cyfarfodydd barhau ar fore Iau, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Johnson. Ar ôl pleidlais, cytunwyd ar yr opsiwn hwn.

Siaradodd y Cynghorydd Michelle Perfect i gefnogi cyfarfodydd yn dechrau am 5.30pm neu 6pm i ganiatáu i Aelodau sy'n gweithio llawn amser i gael cyfle i fynychu. Er na chafodd hyn ei gymeradwyo gan Aelodau eraill, cytunwyd y dylid adlewyrchu barn unigol yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Roedd y Cadeirydd yn cefnogi parhad trefniadau presennol ond tynnodd sylw at fanteision amser dechrau cynharach o ran argaeledd mannau parcio ceir.

Atgoffwyd am weithdy'r gyllideb a oedd i ddod a chyfarfod dilynol y Cyngor ar 12 Rhagfyr. Dywedodd y Cynghorydd Jones nad oedd ar gael ar gyfer y cyfarfod arbennig ar 6 Rhagfyr i ystyried cynigion y gyllideb Cam 2 a dywedodd y gallai slot gyda'r nos fod wedi darparu ar gyfer rhagor o Aelodau. Cyflwynwyd ymddiheuriad ar gyfer y cyfarfod gan y Cynghorydd Woolley hefyd. Cyfeiriodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd at gyfarfodydd eraill a fynychwyd gan Aelodau a gynhaliwyd gyda'r nos yn gyffredinol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel a gyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo gyda diwygiadau;

(b) Bod y cyfarfod arbennig ar 6 Rhagfyr 2017 yn cael ei nodi;

(c) Bod adroddiad diweddaru ar arfarniadau yn cael ei wneud i gyfarfodydd mis Rhagfyr neu fis Ionawr;

(d) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, gan ymgynghori â'r Cadeirydd, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, pe bai angen; a

(e) Byddai'n well gan y Pwyllgor barhau i gyfarfod am 10am ar ddydd Iau, ond bod sylwadau'r Cynghorydd Michelle Perfect am gyfarfodydd gyda'r nos yn fwy addas i ddarparu ar gyfer Aelodau sy'n gweithio llawn amser yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd.

## 46. <u>AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG SY'N BRESENNOL</u>

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a gorffennodd am 12.25pm)

..............................

**Cadeirydd**